OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 No. 3273

## Gorchymyn Clwy Affricanaidd y Moch (Cymru) 2003

**Dehongli**

**2.**—(1) Yn y Gorchymyn hwn, os nad yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall —

ystyr "abwyfa" ("*knacker's yard*") yw unrhyw safle a ddefnyddir mewn cysylltiad â lladd, blingo neu dorri anifeiliaid na fwriedir i'w cig gael ei fwyta gan bobl;

ystyr "carcas" ("*carcase*") yw carcas mochyn ac mae'n cynnwys rhan o garcas;

ystyr "y clefyd" ("*the disease*") yw clwy Affricanaidd y moch;

ystyr "y Cynulliad Cenedlaethol" ("*the National Assembly*") yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "daliad" ("*holding*") yw unrhyw fan lle y mae unrhyw fochyn yn cael ei fridio neu ei gadw yn barhaol neu dros dro neu wedi cael eu cadw ar unrhyw adeg yn ystod y 56 diwrnod blaenorol, ond nid yw'n cynnwys lladd-dy, abwyfa, cyfrwng cludo nac ardal wedi ei ffensio lle y cedwir moch fferal y gellir eu hela;

ystyr "daliad a amheuir" ("*suspected holding*") yw daliad y mae hysbysiad o dan erthygl 5 wedi cael ei gyflwyno ynglŷn ag ef;

ystyr "daliad heintiedig" ("*infected holding*") yw daliad y mae'r Prif Swyddog Milfeddygol wedi cadarnhau bod y clefyd yn bresennol yno;

ystyr "fector" ("*vector*") yw torogen o'r rhywogaeth *Ornithodorus erraticus* neu unrhyw dorogen o'r genws *Ornithodorus* sydd, ym marn y Prif Swyddog Milfeddygol, â'r gallu i drosglwyddo clwy Affricanaidd y moch;ystyr "y feirws" ("the virus") yw feirws clwy Affricanaidd y moch;

ystyr "lladd-dy" ("*slaughterhouse*") yw unrhyw adeilad, safle neu le arall (heblaw cyfleuster trafod anifeiliaid hela a ffermir) ar gyfer cigydda anifeiliaid y bwriedir eu cig i'w fwyta gan bobl, ac mae'n cynnwys unrhyw le sydd ar gael mewn cysylltiad ag ef lle cedwir anifeiliaid cyn eu cigydda;

ystyr "mochyn" ("*pig*") yw anifail o dylwyth y *suidae*;

ystyr "mochyn fferal" ("*feral pig*") yw mochyn nas cedwir na bridir ar ddaliad ac nad yw mewn lladd-dy, mewn abwyfa nac ar gyfrwng cludo;

ystyr "y Prif Swyddog Milfeddygol" ("*the Chief Veterinary Officer*") yw Prif Swyddog Milfeddygol Prydain Fawr; ac

ystyr "Rheolwr Milfeddygol Rhanbarthol" ("*Divisional Veterinary Manager*") yw'r person a benodir dros dro gan yr Ysgrifennydd Gwladol i gael gwybod am anifeiliaid a charcasau sydd wedi eu heintio neu yr amheuir eu bod wedi eu heintio ar gyfer yr ardal lle y mae'r anifeiliaid neu'r carcasau hynny.

(2) At ddibenion y Gorchymyn hwn —

(i) amheuir bod mochyn neu garcas mochyn wedi ei heintio gan y clefyd os oes ganddo arwyddion clinigol neu namau post mortem sy'n cyd-fynd ag effeithiau'r feirws neu os yw canlyniadau prawf diagnostig yn dangos ei bod yn bosib bod y feirws yn bresennol yn yr anifail hwnnw neu'r carcas hwnnw;

(ii) mae mochyn neu garcas mochyn wedi ei heintio gan y clefyd os yw'r Prif Swyddog Milfeddygol yn penderfynu ei fod wedi'i heintio ar sail arwyddion clinigol, neu namau post mortem, neu ganlyniadau prawf diagnostig neu amgylchiadau epidemiolegol.